IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU

ADRODDIAD ANSAWDD BLYNYDDOL

Pwrpas yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol yw dangos sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd gyda'r nod o wella ansawdd gwasanaethau iechyd i boblogaeth Cymru.

Fersiwn y Ddogfen:	1

Statws:	Cymeradwywyd

Awdur y Ddogfen:	Laura Beddoe (IGDC - Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol)
Cymeradwywyd gan:	Claire Osmundsen-Little (IGDC - Sicrwydd Cyllid a Busnes)
Dyddiad cymeradwyo:	07/06/2024
Dyddiad adolygu:	07/06/2025

TŶ GLAN-YR-AFON 21 Heol Ddwyreiniol y Bont-Faen, Caerdydd CF11 9AD

TŶ GLAN-YR-AFON 21 Cowbridge Road East, Cardiff CF11 9AD

AMCAN STRATEGOL	Mae Pob Amcan yn Berthnasol

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL	Cymru iachach
Os oes mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	

SAFONAU ANSAWDD IGDC	ISO 9001
Os oes mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	

GALLUOGWR Y DDYLETSWYDD ANSAWDD	Dull Systemau Cyfan
PARTH ANSAWDD	Diogel
Os oes mwy nag un galluogwr / parth yn berthnasol, rhestrwch isod: Mae pob parth a galluogwr yn berthnasol	

DATGANIAD ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB	Dyddiad cyflwyno: AMHERTHNASOL
Dewiswch eitem.	Canlyniad:
Datganiad:	

LLWYBR CYMERADWYO / CRAFFU: Person/Pwyllgor/Grŵp sydd wedi derbyn neu ystyried y papur hwn		
PWYLLGOR NEU GRŴP	DYDDIAD	CANLYNIAD
Paul Evans (Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol)	20/05/2024	Adolygwyd
Claire Osmundsen-Little, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Sicrwydd Busnes	07/06/2024	Adolygwyd
Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio	03/06/2024	Adolygwyd
Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Dysgu	03/06/2024	Adolygwyd
Y Bwrdd Rheoli	13/06/2024	Adolygwyd
Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	09/07/2024	Cymeradwywyd
Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig	25/07/2024	Cymeradwywyd

ASESIAD EFFAITH	
GOBLYGIADAU / EFFAITH ANSAWDD A DIOGELWCH	Gweler y manylion isod
	Mae cydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd yn ofyniad deddfwriaethol
GOBLYGIADAU / EFFAITH CYFREITHIOL	Oes, gweler y manylion isod
	Mae'n ofyniad deddfwriaethol cydymffurfio â Deddf Iechyd a Gofal (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020
GOBLYGIADAU / EFFAITH ARIANNOL	Nac oes, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn
GOBLYGIADAU / EFFAITH Y GWEITHLU	Nac oes, nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.
GOBLYGIADAU / EFFAITH ECONOMAIDD GYMDETHASOL	Nac oes, nid oes unrhyw oblygiadau economaidd-gymdeithasol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn
GOBLYGIADAU / EFFAITH YMCHWIL AC ARLOESI	Nac oes, nid oes unrhyw oblygiadau ymchwil ac arloesi penodol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

TABL CYNNWYS

1 DOCUMENT HISTORY ..... Error! Bookmark not defined.

1.1 REVISION HISTORY ..... Error! Bookmark not defined.

1.2 REVIEWERS ..... Error! Bookmark not defined.

1.3 AUTHORISATION ..... Error! Bookmark not defined.

1.4 DOCUMENT LOCATION ..... Error! Bookmark not defined.

2 FOREWARD ..... Error! Bookmark not defined.

3 PURPOSE ..... Error! Bookmark not defined.

4 SCOPE ..... Error! Bookmark not defined.

5 STEPS TAKEN TO COMPLY with THE DUTY OF QUALITY ..... Error! Bookmark not defined.

5.1 WELSH GOVERNMENT ROADMAP ..... Error! Bookmark not defined.

5.2 DUTY OF QUALITY REFERENCE GROUP ..... Error! Bookmark not defined.

6 KEY STRATEGIC DECISIONS TAKEN BY DHCW and HOW THE DUTY OF QUALITY HAS INFORMED DECISIONS ..... Error! Bookmark not defined.

6.1 QUALITY IMPACT ASSESSMENT ..... Error! Bookmark not defined.

6.2 INCLUSION OF THE HEALTH AND CARE QUALITY STANDARDS . Error! Bookmark not defined.

6.3 STRATEGIES PUBLISHED IN 2023-24 ..... Error! Bookmark not defined.

7 WHAT HAS BEEN ACHIEVED ..... Error! Bookmark not defined.

7.1 PROJECT PLAN AND WELSH GOVERNMENT ROADMAP ..... Error! Bookmark not defined.

7.2 COMMUNICATION AND ENGAGEMENT ..... Error! Bookmark not defined.

7.3 DHCW STRATEGIES ..... Error! Bookmark not defined.

7.4 HEALTH AND CARE QUALITY STANDARDS INCLUSION IN BOARD AND COMMITTEE PAPERS ..... Error! Bookmark not defined.

7.5 QUALITY IMPROVEMENT TOOLKIT ..... Error! Bookmark not defined.

7.6 QUALITY BUSINESS PARTNERS ..... Error! Bookmark not defined.

7.7 CONTROLLED DOCUMENT MANAGEMENT ..... Error! Bookmark not defined.

7.8 CONTINUED ACCREDITATION TO ISO/BS QUALITY STANDARDS Error! Bookmark not defined.

7.9 ALWAYS ON REPORTS ..... Error! Bookmark not defined.

8 ASSESSMENT OF EXTENT OF ANY IMPROVEMENTS....Error! Bookmark not defined.
8.1 EMBEDDING THE DUTY OF QUALITY....Error! Bookmark not defined.
8.2 BOARD AND COMMITTEE PAPERS....Error! Bookmark not defined.
8.3 ALWAYS ON REPORTS....Error! Bookmark not defined.
8.4 QMS DATA....Error! Bookmark not defined.
8.5 WELSH LANGUAGE....Error! Bookmark not defined.
8.6 IMPROVEMENTS IN 2024-25....Error! Bookmark not defined.
9 PROGRESS TO IMPROVE THE QUALITY OF HEALTH SERVICES..Error! Bookmark not defined.
10 LOOK FORWARD TO QUALITY PRIORITIES AND AMBITIONS FOR THE FOLLOWING YEAR AND HOW THEY WILL BE MONITORED....Error! Bookmark not defined.
11 REFERENCES....Error! Bookmark not defined.
12 DEFINITIONS....Error! Bookmark not defined.

1 HANES Y DDOGFEN

1.1 HANES ADOLYGU

DYDDIAD	FERSIWN	AWDUR	CRYNODEB ADOLYGU
07/06/24	1	Laura Beddoe (IGDC - Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol)	Fersiwn un i'w chymeradwyo

1.2 ADOLYGWYR

Mae angen yr adolygiadau canlynol ar y ddogfen hon:

DYDDIAD	FERSIWN	ENW	SWYDD
20/05/2024	0.1	Paul Evans	Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol
03/06/2024	0.1	Claire Osmundsen-Little	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Sicrwydd Busnes
03/06/2024	0.1	Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio	
03/06/2024	0.1	Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Dysgu	

1.3 AWDURDODI

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn dangos eich bod yn derbyn ei chynnwys.

ENW'R AWDUR:	Laura Beddoe (IGDC - Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol)
RÔL:	Rheolwr Ansawdd (Cydymffurfedd Rheoleiddiol)
LLOFNOD:	L Beddoe 07/06/2024

ENW'R CYMERADWYWR:	Claire Osmundsen-Little (IGDC – Cyllid a Sicrwydd Busnes
RÔL:	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Sicrwydd Busnes

LLOFNOD:	

1.4 LLEOLIAD Y DDOGFEN

MATH	LLEOLIAD
Adrodd	System Rheoli Integredig - IMS

2 RHAGAIR

Croeso i'r adroddiad
Rhagair gan Simon Jones (Cadeirydd y Bwrdd) a Helen Thomas(Prif Swyddog Gweithredol)

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn chwarae rhan unigryw, gan ddarparu'r systemau digidol a data cenedlaethol sy'n sail i wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru. Fel y corff cenedlaethol arbenigol a rhan o deulu GIG Cymru rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r rôl hon, gan gyflawni rhai o'r prosiectau digidol a data gofal iechyd mwyaf yn y DU.

Yn nhirwedd ddigidol gofal iechyd sy'n datblygu'n gyflym, rydym ni yn IGDC yn parhau i ddatblygu'r gwasanaethau digidol a gynigiwn. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o ddysgu, arloesi a gwella wrth barhau i ddarparu ein gwasanaethau craidd.
Mae hwn yn gyfnod heriol i GIG Cymru – i gleifion a staff – ond mae llawer o gyfleoedd ar gyfer digidol a data i helpu gyda'r heriau hyn. Wrth i sefydliadau'r GIG ddarparu mwy o ofal gan ddefnyddio gwasanaethau digidol a data, mae'n hanfodol bod IGDC yn blaenoriaethu ansawdd fel elfen hollbwysig ac yn sicrhau ei fod wrth wraidd popeth a wnawn.

Dyma pam rydym yn falch o gyflwyno-ein Hadroddiad Ansawdd Blynyddol, sy'n crynhoi'r camau gweithredu a'r cyflawniadau o Ebrill 2023 - Mawrth 2024, ac sy'n dangos sut rydym ni yn IGDC yn cyflawni Cenhadaeth 5 ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 'i fod yn bartner strategol yr ymddiriedir ynddo ac yn un cynhwysol o ansawdd uchel a sefydliad uchelgeisiol'.

Mae canoli ansawdd yn ein strategaethau, ymddygiadau, systemau a gwasanaethau yn golygu y gallwn wella ansawdd gwasanaethau iechyd ar gyfer staff clinigol a chleifion ar draws Cymru yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy, gan wneud digidol yn rym er lles mewn iechyd a gofal.

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i'r cyflawniadau a'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu dros y 12 mis diwethaf ac yn amlygu ein hamcanion ar gyfer y dyfodol a meysydd i'w gwella.

Mae rhai o'r cyflawniadau allweddol, ymhlith llawer o rai eraill, yn cynnwys:

- y cyfathrebu ac ymgysylltu rhagweithiol ynghylch Dyletswydd Ansawdd

- cyflawni cynllun gweithredu a phrosiect Dyletswydd Ansawdd a map ffordd Llywodraeth Cymru
- hyrwyddo'r Gymraeg yn weithredol yn y maes gwaith hwn.

Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar roi ansawdd wrth wraidd ein cynlluniau strategol a gwreiddio gofynion y Ddyletswydd Ansawdd ar draws y sefydliad.

Bydd ein Hadroddiad Ansawdd Blynyddol ac adroddiadau Parhaol yn cofnodi ein cynnydd yn erbyn ein nodau a'n huchelgeisiau.

Gobeithiwn y bydd adroddiad eleni yn addysgiadol ac yn ddiddorol i chi.

3 DIBEN

Diben yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol yw dangos sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd gyda'r nod o wella ansawdd gwasanaethau iechyd i boblogaeth Cymru. Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym ym mis Ebrill 2023 fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Rhaid i IGDC ystyried y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal wrth wneud penderfyniadau strategol i sicrhau canlyniadau gwell sy'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru Iachach.

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos sut mae IGDC yn cyflawni Cenhadaeth 5 y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) "i fod yn bartner strategol yr ymddiriedir ynddo ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol o ansawdd uchel".

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i IGDC:

- Cymhwyso cysyniadau ansawdd ar draws pob swyddogaeth.
- Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd.
- Cynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Defnyddio egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth sy'n annog canolbwyntio ar y claf.

Nodau'r Ddyletswydd Ansawdd yw gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a chanlyniadau iechyd poblogaeth Cymru. Diffinnir ansawdd fel gweithio i 'gyfarfod ag anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu'n barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy'.

Mae'r adroddiad yn grynodeb o'r hyn sydd wedi digwydd rhwng Ebrill 2023 – Mawrth 2024, beth aeth yn dda, beth na weithiodd yn dda, beth mae IGDC wedi'i ddysgu a chynlluniau ar gyfer gwelliannau yn y flwyddyn nesaf. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r cynnydd a'r heriau y mae IGDC wedi'u hwynebu wrth gydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd ac asesiad o raddau unrhyw welliant yn y canlyniadau a gyflawnwyd.

4 CWMPAS

Mae'r adroddiad hwn yn berthnasol i holl staff IGDC.

5 CAMAU A GYMERWYD I GYDYMFFURFIO Â'R DYLETSWYDD ANSAWDD

5.1 CWBLHAU MAP FFORDD LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER PARODRWYDD DYLETSWYDD ANSAWDD

Cyflwynodd IGDC adroddiad misol i Fwrdd Gweithredu Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd Llywodraeth Cymru lle darparodd ddiweddariadau misol ar sut y byddai'n bodloni gofynion y Ddeddf o dan y themâu gweithredu canlynol: arweinyddiaeth a diwylliant, strwythurau penderfynu, llywodraethu ac atebolrwydd, adrodd a gwybodaeth (data i wybodaeth), comisiynu, lletya, safonau ansawdd, system rheoli ansawdd – cyffredinol, cyfathrebu ac ymgysylltu a, hyfforddiant ac addysg. Yn ogystal â'r diweddariadau misol, ymgymerodd IGDC â'r gweithgareddau ychwanegol a ganlyn:

Hydref 2022	Darparodd Llywodraeth Cymru sesiwn ddatblygu i'r Bwrdd a ddilynwyd wedi hynny gan gyflwyniad gan Bennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol IGDC.
Ionawr 2023	Cafodd Claire Osmundsen-Little, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Sicrwydd Busnes ei henwi'n Arweinydd Gweithredol ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd. Gweithredwyd cynllun prosiect i ddarparu diweddariadau cynnydd i'r Bwrdd Rheoli ac adolygodd y Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol ddogfennau templed y Bwrdd i gynnwys datganiadau Dyletswydd Ansawdd.
Mawrth 2023	Rhannwyd fideo rhagarweiniol Llywodraeth Cymru â staff IGDC a chafodd sesiwn ei chynnwys yn y gynhadledd staff. Rhannwyd hyfforddiant hefyd gyda staff Gweithredol ac Aelodau Annibynnol y Bwrdd. Cytunwyd ar y mecanweithiau ar gyfer rhannu'r Adroddiadau Parhaol.
Gorffennaf 2023	Diweddarwyd papurau'r Bwrdd a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i gynnwys y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Cyflwynwyd Partneriaid Busnes Ansawdd (QBP), ac roedd gan bob cyfarwyddiaeth o fewn IGDC QBP enwebedig a'i rôl gychwynnol oedd ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd, darparu cymorth i nodi a oeddent yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal ac i ddeall eu prosesau busnes.
Awst 2023	Rhannodd Gweithrediaeth y GIG Asesiad Effaith Ansawdd (QIA) drafft gyda'r Grŵp Cyfeirio Dyletswydd Ansawdd i dreialu a darparu adborth. Treialodd IGDC yr offeryn gydag un tîm a'i adolygu gydag aelodau o wahanol gyfarwyddiaethau, Llywodraethu Corfforaethol, Cyllid a Sicrwydd Busnes a Strategaeth, cyn rhoi adborth.
Tachwedd 2023	Cymeradwywyd yr Adroddiad Parhaol Cyntaf gan y Bwrdd Rheoli. Mae adroddiadau QBP yn cofnodi sefyllfa system rheoli ansawdd pob cyfarwyddiaeth, yn benodol unrhyw ddogfennau neu ddiffyg cydymffurfedd sydd wedi dyddio i'w hadolygu a sut y caiff y rhain eu rheoli.
Rhagfyr 2023	Treialwyd gweithdy Dyletswydd Ansawdd gyda'r tîm cyllid. Y nod yw teilwra'r Ddyletswydd Ansawdd i gyfarwyddiaethau unigol, i ddeall beth mae ansawdd yn ei olygu iddyn nhw a'u prosesau, i nodi meysydd o arfer da neu feysydd sy'n peri pryder ac i archwilio pa wybodaeth y gellir ei rhannu yn yr Adroddiadau Parhaol.
Ionawr 2024	Cynhaliodd y tîm Ansawdd gyflwyniad Dyletswydd Ansawdd o'r enw TenTalk yn IGDC a gwahoddwyd yr holl staff i'w fynychu. Pwrpas y TenTalk oedd rhannu diweddariadau am y Ddyletswydd Ansawdd gyda chynulleidfa eang, roedd y sgwrs yn cynnwys crynodeb o ofynion deddfwriaethol Dyletswydd Ansawdd, nodyn atgoffa o leoliad allanol adroddiadau Parhaol, y gweithdai, ac e-ddysgu. rhaglen yr oedd Gweithrediaeth y GIG wedi'i chynhyrchu.
Chwefror 2024	Cymeradwywyd Cynllun Blynyddol Ansawdd a Rheoleiddio 2024-25 gyda'r amcan i holl uwch dimau arweinyddiaeth (UDA) y cyfarwyddiaethau fod wedi cwblhau gweithdy Dyletswydd Ansawdd erbyn diwedd mis Medi 2024.

Mawrth 2024	Cwblhawyd rhaglen e-ddysgu Dyletswydd Ansawdd gan 100% o'r tîm ansawdd a byddai cais yn cael ei wneud i'r tîm Gweithredol ei fandadu ar gyfer holl staff IGDC. Mynychodd Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol y sesiwn Datblygu'r Bwrdd a rhoddodd nodyn atgoffa i aelodau'r Bwrdd o ofynion deddfwriaethol y Ddyletswydd Ansawdd, sefyllfa bresennol IGDC a chyfrifoldebau'r Bwrdd.

5.2 GRŴP CYFEIRIO DYLETSWYDD ANSAWDD

Mae aelodau o'r tîm Ansawdd wedi mynychu'r Grŵp Cyfeirio Dyletswydd Ansawdd a hwyluswyd gan Weithrediaeth y GIG yn rheolaidd i rannu mewnwelediadau i sut y cydymffurfir â'r Ddyletswydd Ansawdd yn IGDC, wedi rhannu dysgu a heriau, ac wedi gweithio fel grŵp i ddatblygu offer newydd o'r fath fel yr Asesiad Effaith Ansawdd (QIA).

Mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru yn rhoi enghreifftiau o dystiolaeth y gall cyrff y GIG ei defnyddio i asesu eu sefydliad yn erbyn y Ddyletswydd Ansawdd. Mae nifer o'r enghreifftiau yn seiliedig ar ddata clinigol megis Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion, Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion, data marwolaethau a storïau cleifion. Mae'r enghreifftiau hyn yn bennaf y tu allan i gwmpas IGDC gan ei fod yn Awdurdod Iechyd Arbennig nad yw'n trin nac yn gwneud diagnosis uniongyrchol o gleifion. Yr unig eithriad yw storïau cleifion y gellir eu cofnodi wrth ddefnyddio cynhyrchion neu wasanaethau IGDC ond sy'n gyfyngedig o gymharu â byrddau iechyd.

Hwylusodd Gweithrediaeth y GIG gyfarfod ag aelodau eraill o'r Grŵp Cyfeirio Dyletswydd Ansawdd sydd â heriau tebyg i nodi sut i ddehongli'r gofynion deddfwriaethol.

6 PENDERFYNIADAU STRATEGOL ALLWEDDOL A WNAED GAN IGDC A SUT MAE'R DYLETSWYDD ANSAWDD WEDI HYSBYSU PENDERFYNIADAU

Mae penderfyniad strategol yn benderfyniad sy'n cael effaith sylweddol neu hirdymor ar gyflawni amcanion, cenhadaeth neu weledigaeth strategol IGDC. Gall olygu newid cyfeiriad, polisi, gwasanaeth neu ddyraniad adnoddau. Gall hefyd gynnwys ymateb i yrrwr allanol, megis deddfwriaeth, polisi cenedlaethol, arweiniad proffesiynol, neu arbedion cost.

Dyma rai enghreifftiau o benderfyniadau strategol:

- Datblygu neu weithredu gwasanaeth neu system ddigidol newydd
- Newid neu ailgynllunio gwasanaeth neu system ddigidol bresennol
- Tynnu neu ddadgomisiynu gwasanaeth neu system ddigidol
- Ymuno â phartneriaeth neu gydweithrediad newydd â sefydliad arall
- Mabwysiadu neu addasu safon neu fframwaith cenedlaethol neu ryngwladol
- Dyrannu neu ailddyrannu adnoddau neu gyllid i brosiect neu raglen

6.1 ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd (QIA) yn arf ar gyfer ystyried a chasglu effaith cynigion / penderfyniadau ar Ansawdd ein system gofal iechyd, i lywio penderfyniadau strategol.

Mae QIA penodol i IGDC wedi cael ei ddatblygu ac mae wedi'i alinio â'r offeryn cenedlaethol a ddarperir gan Weithrediaeth y GIG. Fel sefydliad nad yw'n wynebu cleifion, mae IGDC yn teilwra'r QIA i gyd-fynd â'i brosesau a'i arferion ei hun. Treialwyd fersiwn drafft gan yr adran gyllid a chafwyd adborth gwerthfawr. Mae'r datblygiad yn parhau rhwng Ebrill a Mehefin 2024 (chwarter 1) gyda'r nod o dderbyn cymeradwyaeth a'i gyflwyno ym mis Gorffennaf-Medi (chwarter 2).

6.2 CYNNWYS Y SAFONAU ANSAWDD IECHYD A GOFAL

Diweddarwyd papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau ym mis Gorffennaf 2023 i gynnwys y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Bwrdd ers y diweddariad hwn, ym mis Medi, Tachwedd, Ionawr a Mawrth.

Cyflwynwyd deunaw o bapurau i'w cymeradwyo gan y Bwrdd yn ystod y cyfnod hwn, a chwblhaodd deg o'r rhain yr adran Dyletswydd Ansawdd Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Cyflwynwyd un papur ar dempled hen fformat, nodwyd chwech yn amherthnasol ac roedd un yn wag. Roedd papurau a gyflwynwyd ar gyfer Bwrdd mis Mawrth yn dangos gwelliant gyda 63% yn cael eu cwblhau'n gywir.

Er mwyn parhau i wella'r cyflwyniadau i'r Bwrdd, bydd y tîm Ansawdd yn gweithio gyda'r tîm Llywodraethu Corfforaethol i ddeall pam mae awduron wedi methu â chwblhau'r adran Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn gywir, ac i ddarparu hyfforddiant a chymorth lle bo angen. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy'r adroddiadau Parhaol a bydd unrhyw bryderon yn cael eu trosglwyddo i'r Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio (QRG).

Cymeradwywyd dau ar hugain o bolisïau yn ystod 2023-24. Cymeradwywyd dau o'r polisïau hyn gan ddefnyddio'r templed polisi wedi'i ddiweddaru a oedd yn cynnwys Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Cwblhawyd un yn gywir gyda'r parth a'r galluogwr wedi'i ddewis, roedd yr ail yn wag. Bydd y tîm ansawdd a llywodraethu corfforaethol yn cydweithio yn 2024-25 i wella cyfraddau cwblhau.

6.3 STRATEGAETHAU A GYHOEDDWYD YN 2023-24

Mae'r Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth 2023-26 yn esbonio'r dull strategol y bydd y tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn ei ddefnyddio wrth ddefnyddio ei adnoddau a blaenoriaethu gweithgareddau. Un o'i nodau strategol yw 'gwreiddio meysydd a galluogwyr y Ddyletswydd Ansawdd o fewn swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth IGDC'.

Gweledigaeth Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg 2023-2026 yw 'ysgogi 'gwerth o ddata' drwy ddarparu gwasanaeth gwybodaeth a dadansoddi cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, sy'n hwyluso trawsnewid gwasanaethau ac yn gwella canlyniadau cleifion'. Un o'i nodau strategol yw 'canolbwyntio ar ansawdd, gwerth a phrofiad y defnyddiwr o'n gwasanaethau a'n cynnyrch'. Nod y strategaeth yw gwneud hyn drwy ddilyn safonau dylunio'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol wrth ddatblygu cynhyrchion data a thrwy ymgorffori adborth a gwerthuso yn gynhyrchion.

Mae Strategaeth Gofal Sylfaenol 2024-2027 yn cefnogi 'gwella iechyd a gofal y boblogaeth mewn Iechyd Sylfaenol, Cymunedol a Meddwl yng Nghymru trwy ddatblygu gwybodaeth arbenigol, gwybodaeth ac adnoddau sy'n galluogi dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gallu i ryngweithredu, cysylltedd cadarn a diogelwch.' Un o'r egwyddorion gweithredol sy'n cefnogi'r strategaeth yw 'ansawdd cyflawni' sy'n ymrwymo IGDC i:

- Defnyddio pob dull i lunio, rheoli a chyflwyno prosiectau i'r safonau cydnabyddedig uchaf a defnyddio ei adnoddau i greu ac arwain y dull gorau yn y dosbarth o reoli cynnyrch, prosiect a rhaglen.
- Datblygu a gwella'n gyson effaith gadarnhaol cynhyrchion, prosiectau, a rhaglenni newid a alluogir yn ddigidol trwy amrywiaeth o ddulliau.
- Mynd i'r afael â diffygion yng nghysondeb ac ansawdd y cyflenwi ar draws y portffolio cyfan o brosiectau digidol.

Gweledigaeth Strategaeth Gyfathrebu 2023-2026 yw 'darparu cyfathrebiadau aml-sianel, tryloyw a rhagweithiol sy'n rhoi pobl yn y canol ac yn cefnogi IGDC i fod yn bartner strategol y gellir ymddiried ynddo'. Un o'i nodau strategol yw 'gwella ein cyfathrebiadau digidol - darparu

cyfathrebiadau digidol o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu ein pwrpas a'n huchelgais fel sefydliad digidol'.

Nod arall yw 'tyfu ein cyfathrebiadau cyhoeddus' fel bod 'ymwybyddiaeth o'r rôl y mae IGDC yn ei chwarae a sut mae ein gwasanaethau a'n cynhyrchion yn helpu i gefnogi darpariaeth ac ansawdd y gofal a dderbynnir neu gefnogi'r cyhoedd i aros yn iach'. Hefyd fel bod 'y cyhoedd yn ymwybodol ac yn ymgysylltu â gwasanaethau digidol a chynhyrchion y gallant eu defnyddio i wella eu hiechyd a'u llesiant'.

Cyhoeddwyd Strategaeth Gwybodeg Glinigol a Newid Busnes 2023-2026 a'i gweledigaeth yw 'ysbrydoli a grymuso ein partneriaid, i lunio a mabwysiadu ein gwasanaethau digidol i wella profiad, gofal a chanlyniadau cleifion. Rhoi pobl wrth galon gwasanaethau digidol.'

Dau o nodau strategol y strategaeth yw 'mwyhau ein cefnogaeth ar gyfer iechyd a gofal' a 'mabwysiadu dull ansawdd gyda safonau proffesiynol' ac mae wedi alinio ei hun gyda pharthau a galluogwyr Dyletswydd Ansawdd. Bydd y Cynllun Gweithredu Strategol yn cael ei fonitro'n agos i werthuso effeithiolrwydd y strategaeth trwy ddulliau amrywiol megis adborth gan staff neu bartneriaid a rhanddeiliaid eraill, trwy arolygon cynnyrch ac astudiaethau achos effaith o raglenni proffesiynol achrededig.

1 Health & Care

Strategic Aim: To maximise our **support for health & care** provision

Health & Care Standards[1] **Domains of Quality**	**Where do we want to be?** Aligned with the Health & Care Standards	**How will we do it?**
Safe	To be the trusted and safe, health technology solutions **provider of choice** for our health and social care partners.	Support the implementation of Clinical Risk Management Standards to ensure high quality, high reliability, clinically safe digital products (in-house or off the shelf) are maximising opportunities for the best patient outcomes.
Timely	To be **aligned with national clinical priorities** in the timing and availability of our new products and services.	Support the DHCW Product Strategy by aligning a clinical lead to each of the DHCW digital clinical products to ensure that clinical network priorities are considered in development roadmaps.
Effective	To provide digital **information to healthcare professionals** to facilitate clinical decision-making, care, and treatment for optimal outcomes that matter to patients, carers, and their families.	Work with clinical networks and the DHCW Data Standards & Information Services teams to standardise digital processes and data collection, to develop and apply national data standards to clinical software systems developed in house or procured with our support for NHS Wales.
Efficient	To evidence clinical digital products and services are designed to enable a **values-based approach** that improve outcomes that matter most to people, in a sustainable way that avoids waste.	To develop a best practice framework for Clinical Informatics Professionals to support in the identification of requirements for products and services, ensuring they are an effective element of clinical workflows and patient pathways.
Equitable	Our digital clinical products and services are designed for **national use** to provide all our health and care partners with equal opportunity to realise the intended benefits from the solutions.	To have a core funded Clinical Informatics and Business Change Team with working partnerships with all organisations across NHS Wales.
Person-Centred	Our digital clinical products are developed to meet the needs of people using them, ensuring that consideration is given to **patients' preferences, needs and values**.	Our digital clinical products are developed with effective clinical engagement and with the adoption of formal centered user design and user interface standards within our product operating model.

2 Quality

Strategic Aim: To adopt a **quality approach** with professional standards

Duty of Quality Enablers	Where do we want to be? Enacting our Duty of Quality	How will we do it?
Leadership	To have visible and **focussed leadership** within our Clinical Informatics and Business Change Service offering to our public sector partner organisations	Increase our visibility and role within the DHCW Product Operating Model, to champion the DHCW vision and values across Wales as leaders in the field of digital health and care.
Workforce	To **recruit, retain and develop** roles to ensure that we have enough, confident people with the right knowledge and skills to deliver quality systems for health and care.	Support the DHCW People and OD Strategy to develop our job families within the Digital, Data and Technology Plus Profession Capability Framework for the organisation (DDaT Plus) aligning professional registration with digital skills. Work with HEIs to deliver digital education externally.
Culture	To **live our organisational values** in an inclusive workplace where people feel psychologically safe to raise concerns and try new collaborative ideas and approaches.	To clarify our role, responsibilities and deliverables within collaborative digital initiatives and increase our visibility, focus and accountability.
Information	To ensure that **clinical information is available and shared** appropriately for health and care professionals who need it.	To triangulate information requirements from information standards, information services and clinical requirements to ensure that we can produce intelligent information on outcome measures to improve clinical products and services
Learning, Research & Improvement	To promote **continuous learning, quality improvement and innovation** within the team and education of health professionals, students and other users through our partnerships.	To support research with our partners, to inform clinical product development and training to reflect clinical workflows, in line with the KLAS Research, digital systems usability survey outcomes.
Whole Systems Approach	To support the new DHCW Portfolio Management Office with a **consistent approach** with professional standards, clinical leadership, clinical governance, engagement, and learning within projects, programmes and product development.	Create a consistent framework for Clinical Informatics and Business Change best practice and accountability in projects, programmes and products that enhances current assurance processes including the New Service Request process and the Wales Informatics Assurance Group process.

Roedd strategaethau a gyhoeddwyd cyn 2023-24 hefyd yn cynnwys blaenoriaethau sy'n cyd-fynd â'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Mae'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol 2022-2025 yn nodi bod 'darparu gwasanaethau digidol o ansawdd uchel yn dibynnu ar weithlu sy'n ymgysylltu, yn hapus ac yn cael ei ysgogi mewn gwaith, yn cael ei gefnogi a'i werthfawrogi gyda dealltwriaeth dda o sut maent yn cyfrannu at y sefydliad a'r GIG ehangach yng Nghymru'. Mae'r strategaeth yn nodi mai IGDC oedd y sefydliad cyntaf 'i ennill ardystiad yn erbyn y BS 76000, y Safon Brydeinig ar gyfer Gwerthfawrogi Pobl, gan ddangos ymrwymiad IGDC i arferion pobl sy'n egwyddorol, yn berthnasol ac yn ddatblygiadol'.

7 BETH SYDD WEDI EI GYFLAWNI

7.1 CYNLLUN PROSIECT A MAP FFORDD LLYWODRAETH CYMRU

Darparodd cynllun prosiect gweithredu Dyletswydd Ansawdd a rhaglen Llywodraeth Cymru fecanweithiau strwythuredig i IGDC nodi'r hyn yr oedd ei angen i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a monitro ei chynnydd. Cafodd cynnydd cynllun y prosiect ei fonitro drwy'r Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig (IOPR).

7.2 CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Mae tîm Ansawdd IGDC wedi arwain yn rhagweithiol ar gyfathrebu Dyletswydd Ansawdd ac ymgysylltu â'r sefydliad gan gynnwys sesiynau gyda'r Bwrdd, cyflwyniad yn y Gynhadledd Staff, ac ar gyfer timau unigol a sgyrsiau ar draws IGDC.

7.3 STRATEGAETHAU IGDC

Mae dogfennau strategaeth IGDC wedi cymryd y Ddyletswydd Ansawdd i ystyriaeth, rhai yn cyd-fynd yn strategol â'r Ddyletswydd Ansawdd tra bod eraill yn cyfeirio at weithgareddau a gwelliannau ansawdd.

7.4 SAFONAU ANSAWDD IECHYD A GOFAL WEDI'U CYNNWYS YM MHAPURAU'R BWRDD A PHWYLLGORAU

Mae Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal wedi'u cynnwys ym mhob un o bapurau'r Bwrdd a Phwyllgorau ac mae'n rhaid i awduron eu hystyried wrth ddrafftio papurau a nodi pa un o'r safonau sydd fwyaf perthnasol, gan gefnogi ymhellach sefydlu'r Ddyletswydd Ansawdd.

7.5 PECYN CYMORTH GWELLA ANSAWDD

Mae cyfres o offer gwella ansawdd yn cael ei datblygu gan y tîm Ansawdd. Yr offeryn cyntaf a grëwyd oedd DMAIC - Diffinio, Mesur, Dadansoddi, Gwella a Rheoli a ddefnyddir i wella ansawdd y canlyniadau y mae prosesau'n eu cynhyrchu.

7.6 PARTNERIAID BUSNES ANSAWDD

Mae Partneriaid Busnes Ansawdd wedi'u cyflwyno i gefnogi gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu'r tîm Ansawdd, i rannu gwybodaeth am y Ddyletswydd Ansawdd i gyfarwyddiaethau. Mae rôl y Partner Busnes Ansawdd wedi ehangu dros y misoedd diwethaf i gynnwys adrodd ar ddata systemau rheoli ansawdd (QMS) i wella'r ddogfen a statws diffyg cydymffurfedd ar draws IGDC. Mae'r Partneriaid Busnes Ansawdd wedi rhannu diweddariadau ar y strategaeth rheoli dogfennau, sy'n cynnwys y defnydd o iPassport, system rheoli ansawdd electronig.

Mae'r Partneriaid Busnes Ansawdd hefyd yn rhan o rwydwaith o Bartneriaid Busnes IGDC sy'n rhannu gwybodaeth ac arfer da. Mae'r Grŵp Perfformiad Partneriaid Busnes yn cynnwys partneriaid busnes o sawl maes o'r sefydliad gan gynnwys cyllid, datblygu pobl a sefydliadol, cynllunio, cyfathrebu, a llywodraethu corfforaethol ac yn cael ei arwain gan berfformiad sefydliadol.

7.7 RHEOLI DOGFENNAU RHEOLEDIG

Cymeradwywyd y Cynllun Rheoli Dogfennau gan y Bwrdd Rheoli yn 2024. Mae'r cynllun yn amlinellu sut a pham mae rheoli mathau penodol o ddogfennau yn hanfodol. Y nod yw gwella cyfraddau cydymffurfedd QMS yn IGDC, fel yr adroddwyd yn yr adroddiadau Parhaol.

Mae'r prosiect wedi'i rannu'n ddau gam, a bydd Cam Un yn canolbwyntio ar symud dogfennau rheoledig o System Rheoli Integredig (IMS) Sharepoint i iPassport. Bydd Cam Dau yn canolbwyntio ar yr holl ddogfennau sy'n cael eu storio y tu allan i'r IMS neu iPassport ac yn eu hadnabod ac yna'n eu symud i'w lleoliad storio cywir.

7.8 ACHREDU PARHAUS I SAFONAU ANSAWDD ISO/BS

Mae IGDC wedi ymrwymo i gyflawni a chynnal nifer o dystysgrifau Safon Brydeinig (BS) y Sefydliad Safonau Rhyngwladol (ISO). Yn 2023-24, llwyddodd IGDC naill ai i gyflawni neu gynnal achrediad yn y canlynol:

- ISO 9001:2015 - Systemau Rheoli Ansawdd
- ISO 20000:2018 Systemau Rheoli Gwasanaeth TG
- ISO 14001:2015 - Systemau Rheoli'r Amgylchedd
- ISO 27001:2013 Systemau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth
- ISO 30415:2021 Rheoli Adnoddau Dynol – Amrywiaeth a Chynhwysiant
- BS 76000:2015 - Gwerthfawrogi Pobl
- BS 10008:2020 - Pwysau Tystiolaethol a Systemau Rheoli Gwybodaeth Derbyniol Cyfreithiol
- SDI - Service Desk Institute

7.9 ADRODDIADAU PARHAOL

Mae'r canllawiau statudol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu ar gyfer 'proses ystwyth ac ailadroddus' wrth ddatblygu'r adroddiadau ansawdd 'Parhaol' gan eu bod yn nodi bod newid sut mae sefydliadau'n gweithio yn cymryd amser. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, penderfynodd IGDC ddechrau'n fach a datblygu'r adroddiadau Parhaol dros amser.

Mae'r adroddiad Parhaol yn canolbwyntio ar y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a sut mae IGDC yn cydymffurfio â nhw. Mae unrhyw dystiolaeth a gesglir yn cael ei hadrodd o dan un o'r parthau – Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon, Teg ac un sy'n Canolbwyntio ar y claf.

Yn 2023-24, roedd adroddiadau Parhaol yn cael eu hysgrifennu bob chwarter.

Cynhyrchodd IGDC yr adroddiad 'Parhaol' cyntaf ar gyfer chwarter 2 o'r enw 'Adroddiad Ansawdd Gorffennaf – Medi 2023 (Ch2)'. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am:

- Y QMS, yn benodol y ddogfen a'r statws diffyg cydymffurfedd, a oedd IGDC wedi cyflawni ei darged a pha welliannau oedd i'w gwneud.
- Cynnwys Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal ym mhapurau'r Bwrdd a Phwyllgorau.

- Diweddariad yn y Gymraeg ar sut mae'n hyrwyddo'r maes gwaith hwn, gweithgareddau ymgysylltu, hyfforddiant sydd ar gael i staff a chynnyrch dwyieithog sydd ar gael i boblogaeth Cymru.

Cymeradwywyd yr adroddiad Parhaol Chwarter 3 a'i gyhoeddi ar y wefan allanol o'r enw Adroddiad Ansawdd Hydref – Rhagfyr 2023 (C3) ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am :

- QMS
- Gwasanaethau a Gomisiynir
- Lansio Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig yn y Rhyl
- Y Gweinidog Iechyd yn ymweld ag Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i weld cysyniad ward ddigidol
- Y Gymraeg

Mae adroddiad Parhaol Chwarter 4 yn mynd trwy'r broses gymeradwyo cyn ei gyhoeddi ar y wefan allanol.

8 ASESU GRADDAU UNRHYW WELLIANNAU

Mae asesiad cadarn o raddau gwelliannau yn y cyfnod cynnar hwn yn heriol gan mai dim ond ym mis Ebrill 2023 y cyflwynwyd y Ddyletswydd Ansawdd. Drwy gydol 2023-24, nod IGDC oedd cyfathrebu ac ymgysylltu â'r Bwrdd ac aelodau o staff i ddeall y gofynion deddfwriaethol ac mae wedi sefydlu llinell sylfaen o sefyllfa bresennol IGDC mewn perthynas â'r Ddyletswydd Ansawdd. Bydd hyn yn darparu pwynt cyfeirio ar gyfer asesiadau yn y dyfodol o faint o welliannau sy'n gallu plotio ac asesu'r data dros amser.

8.1 GWREIDDIO'R DYLETSWYDD ANSAWDD

Mae gwreiddio'r ddeddfwriaeth newydd yn broses barhaus o gyfathrebu ac ymgysylltu â holl staff IGDC trwy amrywiol ddulliau. Drwy gydol 2023-24, mae'r tîm Ansawdd wedi cynnal sgyrsiau, siarad mewn cynadleddau staff, cynnal gweithdai a chyflwyno mewn gwahanol grwpiau a phwyllgorau.

Yn 2024-25 bydd gweithdai Dyletswydd Ansawdd yn cael eu cyflwyno i bob cyfarwyddiaeth er mwyn teilwra'r ddeddfwriaeth i dimau unigol, gan fapio eu prosesau yn erbyn y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a nodi gwybodaeth sy'n dangos pa mor dda yw, neu nad yw, IGDC yn cyflawni'r nod o wella ansawdd gwasanaethau iechyd.

8.2 PAPURAU'R BWRDD A PHWYLLGORAU

Yn 2023-24, diweddarwyd papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau i gynnwys y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal. Cafodd cydymffurfedd â'r gofyniad newydd hwn ei fonitro gan y tîm Llywodraethu Corfforaethol ac mae'r cyfraddau cydymffurfedd angen gwelliant sylweddol gyda dim ond 50% yn cwblhau'r adrannau newydd.


8.3 ADRODDIADAU PARHAOL

Mae dau adroddiad Parhaol wedi'u cyhoeddi'n allanol yn 2023-24.

8.4 DATA QMS

Cyn y Ddyletswydd Ansawdd, roedd nifer o fetrigau allweddol eisoes ar waith ac yn cael eu hadrodd arnynt megis data QMS. Caiff gwelliannau eu monitro trwy IMSAG, QRG, IOPR ac

adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Bydd Adroddiadau Ansawdd Blynyddol yn y dyfodol yn gallu cymharu'r data QMS sylfaenol, ystyried y newidiadau a wnaed a chyfleu eu canfyddiadau.



Roedd data yn yr Adroddiadau Parhaol yn dangos gwelliant yn y dogfennau a oedd o fewn y dyddiad adolygu, ond mae hyn wedi aros yn yr 80au isel ers sawl mis. Gostyngodd achosion o ddiffyg cydymffurfedd i 53% ym mis Tachwedd 2023, trafodwyd hyn mewn sawl grŵp ac adroddwyd arno i bwyllgorau ac mae'r broses o gau achosion o ddiffyg cydymffurfedd wedi gwella. Mae dogfennau a chyfraddau cydymffurfedd diffyg cydymffurfedd yn parhau i gael eu hadrodd a'u monitro mewn grwpiau amrywiol gydag Adroddiad Ansawdd misol yn nodi meysydd sy'n peri pryder yn gynnar ac yn cael eu huwchgyfeirio i gyfarwyddiaethau drwy'r QBPs.

8.5 Y GYMRAEG

Mae ystadegau'r Gymraeg IGDC yn cael eu hadrodd i Bwyllgorau fel mater o drefn ac yn cael eu rhannu yn yr Adroddiadau Parhaol. Mae dau Hyrwyddwr Bwrdd ar gyfer y Gymraeg sy'n hyrwyddo'r maes gwaith hwn yn weithredol, mae ganddo Grŵp Iaith Gymraeg sy'n cydweithio i rannu gwybodaeth, datblygu a gwella diwylliant yr Iaith Gymraeg yn IGDC.

Mae hyn wedi helpu i gefnogi IGDC i gyflawni 31.3% o sgiliau Iaith Gymraeg Lefel 1-2 ac i 90.6% o staff fod wedi cwblhau cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Mae Cymru â Diwylliant Bywiog a'r Gymraeg yn Ffynnu yn egwyddor a fabwysiadwyd wrth ddatblygu cynllun cydraddoldeb strategol IGDC a'i ymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog gyda ffocws ar hyfforddiant iaith Gymraeg.

Mae cyflawniadau yn cynnwys:

- Mabwysiadu'r egwyddor a sefydlwyd yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi datblygu Cynllun Iaith Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu lefel o wasanaethau Cymraeg sy'n cyfateb i Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu mabwysiadu gan sefydliadau cyhoeddus tebyg yng Nghymru.
- Parhau i reoli ein cyfrifoldebau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg gan ddefnyddio ein Cynllun Gweithredu y Gymraeg i fonitro cynnydd a gwelliannau.
- Sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hasesu wrth ddatblygu cynnyrch newydd.

- Cynnwys diwylliant Cymru yn ein dyluniad amgylcheddol gan ddefnyddio cyfleoedd fel cystadlaethau ffotograffau Tirwedd Cymru a chonfensiynau enwi â themâu Cymreig.

8.6 GWELLIANNAU YN 2024-25

Cyflwynwyd y Ddyletswydd Ansawdd yn 2023-24 gyda'r nod o adeiladu, mireinio a gwella sut mae IGDC yn cydymffurfio â gwasanaethau iechyd, ac yn adrodd ar sut y mae wedi gwella ansawdd gwasanaethau iechyd. Mae nifer o feysydd i'w gwella wedi'u nodi ar gyfer 2024-25.

Adroddiadau Parhaol

Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y parthau, ac mae'n bosibl bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cwmpasu nifer o'r parthau, fodd bynnag, dim ond un sy'n cael ei ddewis ar gyfer yr adroddiad. Mae'r templed adrodd i'w adolygu yn 2024-25 i'w alluogi i ddal sawl parth a'r galluogwyr – Arweinyddiaeth, Gweithlu, Diwylliant, Gwybodaeth, Dysgu, Ymchwil a Gwella, a Dull System Gyfan. Bydd hyn yn rhoi darlun mwy cyfannol o sut mae IGDC yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Ansawdd trwy ddangos sut mae tystiolaeth a ddarparwyd yn cysylltu ag amrywiol barthau a galluogwyr.

Adroddiad Ansawdd Blynyddol

Prin yw'r dystiolaeth i gefnogi'r cynnydd i wella ansawdd gwasanaethau iechyd yn 2023-24 wrth i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei hymgorffori yn IGDC. Yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2024-25, bydd IGDC yn adrodd ar raddfa unrhyw welliannau gan ddefnyddio offeryn Model ar gyfer Gwella y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd (IHI). Gan ddefnyddio'r offeryn IHI, bydd IGDC yn gofyn tri chwestiwn:

1. Beth rydym yn ceisio ei gyflawni?
2. Sut byddwn ni'n gwybod bod newid yn welliant?
3. Pa newid y gallwn ei wneud a fydd yn arwain at welliant?

Gwasanaethau a Gomisiynir

Mae gan IGDC un gwasanaeth a gomisiynwyd, sef iechyd galwedigaethol. Yn 2023-24, roedd yr adrodd Parhaol wedi'i gyfyngu i adroddiad Chwarter 3 gan fod dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu yn dilyn newid mewn prosesau a system. Yn 2024-25, bydd data'n cael ei ddarparu i ddangos sut mae'r gwasanaeth wedi bodloni ei ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y flwyddyn.

9 CYNNYDD I WELLA ANSAWDD GWASANAETHAU IECHYD

Mae Adroddiad Blynyddol IGDC 2023-24 yn disgrifio'r amrywiaeth o sefydliadau rydym yn eu cefnogi megis y byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, AaGIC, Cydwasanaethau, Meddygon Teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddion a charchardai. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos nifer y defnyddwyr digidol, gwasanaethau, dogfennau, canlyniadau a gweithgarwch digidol ar draws y gwasanaethau a ddarperir gan IGDC.

Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd y mae IGDC yn ei wneud ar wella ansawdd y gwasanaethau iechyd y mae'n eu darparu i GIG Cymru.

Cyn cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd, mae IGDC wedi cyflwyno grwpiau neu wasanaethau y byddai eu canlyniadau yn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan IGDC.

Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Dysgu (IRLG)

Mae IRLG wedi bod yn rhedeg ers pedair blynedd a'i nod yw sefydlu diwylliant o ddysgu a gwella, yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau o ddigwyddiadau mawr. Mae IRLG yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ar Hysbysiadau Rhybudd Cynnar a Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol.

Grŵp Sicrwydd Gwybodeg Cymru (WIAG):

Nod WIAG yw rhoi sicrwydd bod y gwasanaethau digidol cenedlaethol a ddarperir yn ddiogel, yn effeithiol ac yn ddibynadwy. Mae ugain o arweinwyr sicrwydd yn adolygu gwasanaethau newydd, gwasanaethau presennol a fydd yn cael eu hail-ddylunio, datganiadau newydd ac ati neu sy'n rhyngwynebu â phensaernïaeth IGDC. Cynrychiolir y Gymraeg yn y grŵp hwn er mwyn sicrhau bod unrhyw wasanaeth a ddarperir gan IGDC wedi ystyried gofynion yr laith Gymraeg.

Gwasanaethau Gwybodaeth

Mae IGDC yn casglu data o nifer o ffynonellau ac yn storio data o fwy na 50 miliwn o ymweliadau cleifion allanol a 27 miliwn o gyfnodau gofal cleifion mewnol. Mae IGDC hefyd yn cynnal cronfeydd data sy'n cwmpasu gofal eilaidd, genedigaethau, marwolaethau, iechyd plant a mwy. Mae'r data yn cefnogi GIG Cymru i redeg yn effeithiol, gan ddadansoddi data i gefnogi ansawdd gwasanaethau iechyd. Cyflenwi Gwybodaeth - Iechyd a Gofal Digidol Cymru (nhs.wales)

10 EDRYCH YMLAEN AT FLAENORIAETHAU ANSAWDD AC UCHELGEISIAU AR GYFER Y FLWYDDYN GANLYNOL A SUT Y CÂNT EU MONITRO

Er mwyn cefnogi carreg filltir IMTP IGDC i 'fod yn bartner strategol yr ymddiriedir ynddo ac yn sefydliad o ansawdd uchel, cynhwysol ac uchelgeisiol' mae Cynllun Blynyddol Ansawdd a Rheoleiddio 2024-25 yn nodi'r blaenoriaethau ansawdd ar gyfer IGDC (Atodiad A).

Mae'r blaenoriaethau ansawdd a restrir yn yr IMTP yn cynnwys:

- Cynnal rhaglen o weithdai Dyletswydd Ansawdd ar draws pob cyfarwyddiaeth i fapio Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 i waith pob cyfarwyddiaeth. Mae cyfarwyddiaethau yn cael y dasg o fapio eu prosesau mewnol yn erbyn y Safonau a nodi meysydd i'w gwella, llwyddiannau i'w dathlu a gwybodaeth i'w rhannu yn yr Adroddiadau Parhaol.
- Symleiddio proses WIAG trwy gyflwyno Microsoft PowerApp. Bydd sicrwydd WIAG yn dod yn broses dau gam o gyflwyno prosiect i WIAG, ac yna cyflwyno a chymeradwyo'r prosiect trwy'r PowerApp. Bydd y PowerApp yn gwneud y broses yn fwy darbodus a bydd yn cefnogi mynychwyr i olrhain cynnydd eu cymeradwyaethau prosiect a lleihau'r amser sydd ei angen i fynychu WIAG.
- Cyrhaeddodd y rhaglen archwilio mewnol seiliedig ar risg restr fer Gwobr GIG 2023 yn y categori 'Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal'. Yn dilyn adborth gan y beirniaid, mae'r rhaglen yn cael ei hadolygu gyda gwelliannau megis datblygu hyfforddiant ar gyfer ein harchwilwyr mewnol cymwysedig ar gyfer pob un o'r safonau y mae IGDC wedi'u hardystio iddynt a mapio gweithgarwch archwilio yn erbyn gofynion pob safon.

- Mabwysiadu arferion i fodloni gofynion Rheoli Ansawdd ISO 13485 ar gyfer Dyfeisiau Meddygol. Mae cyfres o archwiliadau mewnol wedi'u cynnal yn erbyn y safon ac mae achosion o ddiffyg cydymffurfedd yn cael eu cywiro cyn archwiliad allanol. Yn dilyn yr archwiliad allanol, bwriadwn geisio ardystiad i'r safon erbyn diwedd chwarter 4.
- Parodrwydd ar gyfer gweithredu'r Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol (MDR) gan ragweld deddfwriaeth MDR newydd y DU. Mae gweithdrefnau'n cael eu datblygu gyda'r nod i IGDC fod mewn sefyllfa i reoli'r prosesau rheoleiddio gofynnol ar gyfer meddalwedd a ddosberthir fel dyfais dosbarth I hyd at asesiad cydymffurfedd.

Bydd Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2024-25 ac adroddiadau Parhaol yn cofnodi cynnydd yr amcanion hyn, yr hyn a gyflawnwyd a pha heriau a wynebwyd.

11 CYFEIRIADAU

RHIF MYNEGAI	ENW'R DDOGFEN
	Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26
	Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth 2023-26
	Strategaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg 2023-26
	Strategaeth Gofal Sylfaenol 2024-27
	Strategaeth Cyfathrebu 2023-26
	Strategaeth Gwybodeg Glinigol a Newid Busnes 2023-26
	Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol
	Adroddiad Blynyddol 2023-24

12 DIFFINIADAU

TERM	DIFFINIAD
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
QBP	Partner Busnes Ansawdd
SLT	Uwch dîm arwain
QIA	Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd
QRG	Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio
IOPR	Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig
IMS	System Rheoli Integredig
QMS	System Rheoli Ansawdd
Y Sefydliad Rhyngwladol er Safoni	Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Safoni
BS	Safon Brydeinig

13 ATODIADAU / ATODIAD

13.1 CYNLLUN BLYNYDDOL ANSAWDD A RHEOLEIDDIO 2024-25

AMCAN	GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL	DYDDIAD DARPARU	MONITRO
Dyletswydd Ansawdd – cyhoeddi'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol cyntaf.	Drafftio adroddiad i gynnwys Adroddiadau Parhaol.	Chwarter 1	Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio i fonitro.
Gweithdai Dyletswydd Ansawdd.	Ymgorffori Dyletswydd Ansawdd ledled IGDC. Gweithdai i ganolbwyntio ar Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal gan deilwra i bob cyfarwyddiaeth.	Chwarter 2	Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio i fonitro'r cynllun gweithdai a drefnwyd.
Paratoi ar gyfer Dyfeisiau Meddygol ISO 13485.	Gweithio tuag at ennill ardystiad ISO 13485.	Chwarter 2	Grŵp Sicrwydd Dyfeisiau Meddygol a Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio i fonitro cynnydd.
Parodrwydd ar gyfer Dyfeisiau Meddygol.	Cynhyrchu dadansoddiad bwlch yn erbyn rheoliadau cyfredol y DU.	Chwarter 2	Diweddariadau cynnydd wythnosol i'r Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol.
Parodrwydd ar gyfer rheoliadau Dyfeisiau Meddygol newydd y DU.	Ymgynghori MHRA a map trywydd i'w cwblhau gyda chanfyddiadau dadansoddi bylchau yn cael eu gweithredu mewn gweithdai.	Chwarter 4	Grŵp Sicrwydd Dyfeisiau Meddygol i fonitro cynnydd.
Map Sicrwydd Ansawdd Proffesiwn.	Dadansoddiad bwlch o lefelau sgiliau presennol y tîm Ansawdd yn erbyn Map Proffesiwn Ansawdd CQI. Cynllunio a chyflwyno hyfforddiant a chynhyrchu offeryn hunanasesu a gwerthuso effeithiolrwydd.	Chwarter 4	Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio i fonitro cynnydd. Cyfarfod amcanion Ansawdd bob pythefnos dan arweiniad Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol
Symleiddio prosesau Grŵp Sicrwydd Gwybodeg Cymru	PowerApp i ddisodli'r broses WIAG bresennol i leihau'r oedi rhwng y Cynllun Sicrwydd Ansawdd a'r Cyfnod Achos	Chwarter 1	Eitem agenda gylchol yn WIAG. Diweddariadau i Bennaeth Sicrhau

AMCAN	GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL	DYDDIAD DARPARU	MONITRO
(WIAG) gyda PowerApp	Diogelwch ac Adroddiad Parodrwydd ar gyfer rheolwyr prosiect		Ansawdd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
iPassport:	Gwelliannau parhaus i iPassport, y system rheoli ansawdd electronig gan gynnwys cysylltu dogfennau â chymalau safon ansawdd allanol, casglu holl ganfyddiadau archwilio mewnol ac allanol, ac archwilio modiwlau ychwanegol at ddefnydd IGDC.	Chwarter 4	Cyfarfod Grŵp Gweithredu iPassport wythnosol dan arweiniad Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol.
Strategaeth Dilysu Ystwyth	Datblygu strategaeth ar gyfer dull ystwyth o 'ddilysu systemau cyfrifiadurol'.	Chwarter 4	Cyfarfod tîm dilysu misol a chyfarfod Adolygu Amcanion Ansawdd.
Ansawdd y Rhaglen / Prosiect	Adeiladu ar waith a wnaed gyda LIMS 2.0 i ddatblygu fframwaith ar gyfer ansawdd o fewn rhaglen / prosiect.	Chwarter 4	Adolygiad o gyfarfodydd tîm ansawdd yn erbyn croesddadansoddiad o GAMP5 a chyfarfodydd tîm Dilysu misol.
Dilysu fel gwasanaeth	Gwerthuso dichonoldeb dilysu fel gwasanaeth i fyrddau iechyd.	Chwarter 4	Adolygiad o gyfarfodydd tîm ansawdd yn erbyn croesddadansoddiad o GAMP5 a chyfarfodydd tîm Dilysu misol.
Mwy o weledd y tîm Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfedd Rheoleiddiol.	Cyfathrebu mewnol, TenTalks, offer gwella ansawdd, proses GEMBA a defnyddio QBPs i integreiddio ansawdd ar lefel cyfarwyddiaeth.	Chwarter 4	Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio i dderbyn diweddariadau.
Strategaeth Rheoli Dogfennau Rheoledig.	Darparu amgylchedd mwy cadarn ar gyfer dogfennau rheoledig. Mae'r prosiect mewn dau gam, a bydd Cam Un yn canolbwyntio ar symud dogfennau rheoledig o System Rheoli Integredig (IMS) Sharepoint i iPassport. Bydd Cam Dau yn canolbwyntio ar yr holl ddogfennau sy'n cael eu storio y tu allan i'r IMS neu iPassport a nodi eu lleoliad storio cywir.	Chwarter 4	Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio i fonitro cynnydd Cam Un a Dau a chydymffurfedd parhaus â'r strategaeth. Partneriaid Busnes Ansawdd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd i holl UDA y cyfarwyddiaethau.
Gwella'r rhaglen archwilio	Pob arweinydd safonol i gynhyrchu rhaglen hyfforddi benodol i hyfforddi archwilwyr ar draws sawl safon, gan leihau nifer yr archwiliadau.	Chwarter 4	Grŵp Sicrwydd Systemau Rheoli Integredig i adrodd i'r Grŵp Ansawdd a Rheoleiddio.
Meincnod yn erbyn sefydliadau digidol eraill y GIG.	Nodi prosesau busnes, metrigau perfformiad, safonau ansawdd ac ardystiadau perthnasol eraill a chynhyrchu argymhellion.	Chwarter 2	Cyfarfod Adolygu Amcanion Ansawdd